# SL(5)650 – Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") wedi eu gwneud o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 iddi.

Diben y Rheoliadau yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE.

Gwnaeth Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") ddiwygiadau i Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 (OS 2010/1433), gan drosi gofynion Cyfarwyddebau 2008/50/EC a 2004/107/EC ar ansawdd aer yr amgylchedd yn Ewrop.

Mae Rheoliad 2(5)(a) o Reoliadau 2019 yn cyfeirio at Gyfarwyddeb 2008/1/EC ynghylch atal a rheoli llygredd mewn ffordd integredig. Nid yw'r Gyfarwyddeb hon mewn grym mwyach.

Mae Rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2019 drwy ddileu pob cyfeiriad at Gyfarwyddeb 2008/1/EC ac, yn ei lle, roi Cyfarwyddeb 2010/75/EU sy'n ymwneud ag allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd mewn ffordd integredig).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio erthyglau 11 ac 11A o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Gosodwyd y Rheoliadau hyn yn y gorffennol at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

## Y weithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Diben y Rheoliadau yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd y DU yn ymadael â’r UE. Daw rheoliadau 1 a 2 i rym ar ddiwrnod cwblhau’r Cyfnod Gweithredu, sef 23:00 ar 31 Rhagfyr 2020. Daw Rheoliad 3 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau’r Cyfnod Gweithredu. Bydd hyn yn cychwyn y gofyniad ymgynghori a nodir ym mharagraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud. Mae'r Rheoliadau'n cadarnhau bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**10 Tachwedd 2020**